

## HYWEL DDA (bu farw 950), brenin a deddfwr

**Enw:** Hywel Dda

**Dyddiad marw:** 950

**Priod:** Elen ferch Llywarch ap Hyfaidd

**Rhiant:** Cadell ap Rhodri Mawr

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** brenin a deddfwr

**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Stephen Joseph Williams

Gelwid ef yn gyffredin yn 'Hywel Dda fab Cadell, tywysog Cymru oll,' ac yn [Brut y Tywysogion](#) gelwir ef yn 'ben a moliant yr holl Frytaniaid.' Ef oedd yr unig dywysog Cymreig a gyfenwid yn 'Dda.' Ganed ef tua diwedd y 9fed ganrif; ni wyddys ym mha le.

Un o feibion [Rhodri Mawr](#) oedd Cadell, a rhan ddeheuol tywysogaeth ei dad a etifeddodd ef, sef Seisyllwg (Ceredigion ac Ystrad Tywi). Gadawodd hi i'w ddau fab, Hywel a Clydog, ac wedi marw Clydog yn y flwyddyn 920 cafodd Hywel feddiant llwyr arni. Elen ferch Llywarch ap Hyfaidd o Ddyfed oedd ei wraig, a dug hi Ddyfed yn gynhysgaeth iddo, gan mai Llywarch, yn ôl pob tebyg, oedd yr olaf o dywysogion Dyfed. Tywysog Gwynedd oedd [Idwal Foel](#), ac y mae'n debyg bod Powys hithau yn ei feddiant. Lladdwyd [Idwal](#) gan y Saeson mewn brwydr yn y flwyddyn 942, ac er bod ganddo feibion meddiannodd Hywel ei holl diroedd. Daeth ef felly yn 'frenin Cymru oll,' ond bod gan Forgannwg a Gwent eu brenhinoedd annibynnol.

Llwyddodd ef i gadw heddwch rhyngddo a brenhinoedd Lloegr drwy gydol ei oes drwy ymostwng iddynt. Yn 918 bu ef a Chlydog ei frawd ac [Idwal Foel](#) yn plygu glin i Edward fab Alffred Fawr, a thua 926 aeth ef ac Owain o Went i Henffordd i gydnabod awdurdod Athelstan. Ceir ei enw yn ami ar freinlenni Lloegr fel is-frenin, a diau iddo deithio i lys Wessex o bryd i'w gilydd. Yr oedd yn ddigon annibynnol, er hynny, i beri bathu 'ceiniogau' arian yn dwyn ei enw, a hyd y gwyddys ef oedd yr unig dywysog Cymreig a wnaeth hynny.

Un o ddigwyddiadau mawr ei fywyd oedd ei bererindod i Rufain yn 928. Awgrymwyd mai dilyn esiampl Alffred a wnaeth yn hyn o beth, ac fe all mai gwaith y brenin hwnnw yn Lloegr a'i symbylodd i ymgymryd â gorchwyl pwysicaf ei fywyd, sef mynnu trefn a dosbarth ar amryfal arferion a chyfreithiau ei deyrnas. Diau bod ei deithiau wedi ei gadarnhau yn ei fwriad.

I chwarter olaf y 12fed ganrif y perthyn y llawysgrif gynharaf sydd ar gael o 'Gyfreithiau Hywel Dda,' ond tystia'r holl lawysgrifau mai trwy ei orchymyn a than ei awdurdod ef y trefnwyd hwy. Cytunant hefyd ar y cynllun a ddewisodd ef i gyflawni'r gwaith, sef gwysio chwech o gynrychiolwyr o bob cwmwd yn ei dywysogaeth i'r 'Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed' i gymanfa fawr. (Codwyd abaty yn agos i'r fan yn ddiweddarach, a'r enw Cymraeg ar bentref Whitland yw Yr Hen Dy Gwyn.) Rhywbryd rhwng 942 a 950 y bu hyn: tua 945, efallai.

Ni ellir gwybod yn iawn beth oedd cynnwys y llyfr cyfraith a luniwyd yn y Ty Gwyn. Gwelodd [Aneurin Owen](#) yn y 19eg ganrif y

dylid dosbarthu'r llawysgrifau cynharaf yn dri 'dull' pur wahanol i'w gilydd. Tyfodd y gwahaniaeth hwn rhwng y 10fed ganrif a'r 12fed am na pharhaodd undod teyrnas Hywel ddim wedi ei farw ef yn y flwyddyn 950. Bernir mai 'Dull Dyfed' (sef 'Llyfr Blegywryd,' yn ôl dosbarthiad [A. W. Wade-Evans](#)) sydd wedi cadw'n gywiraf gynnwys a threfn y ffurf wreiddiol. Y mae'r 'dull' hwn a rhai llawysgrifau eraill yn enwi [Blegywryd](#) fel y gwr a ddewiswyd gan y brenin gyda'r 'deuddeg lleyg doethaf o'i wyr i luniaethu ac i synhwyro iddo, ac i'w deyrnas, gyfreithiau ac arferoedd yn berffaith ac yn nesaf y gellid i'r (g)wirionedd a iawnder.' Dywedir ymhellach i'r brenin erchi 'eu hysgrifennu yn dair rhan: yn gyntaf, cyfraith ei lys beunyddiol; yr ail, cyfraith y wlad; y drydedd, arfer o bob un ohonynt.' Yr oedd tri 'llyfr' cyfraith i'w gwneud, h.y. tri chopi: ' un wrth ei lys beunyddiol parhaus gydag ef; arall i lys Dinefwr; y trydydd i lys Aberffraw; megis y caffai tair rhan Cymru, Gwynedd, Powys, Deheubarth, awdurdod cyfraith yn eu plith wrth eu rhaid yn wastad ac yn barod. Ac o gyngor y doethion hynny, rhai o'r hen gyfreithiau a gynhaliodd; eraill a wellhaodd; eraill a ddileodd yn gyfan gwbl, a gosod cyfreithiau newydd yn eu lle. '

Rhaid priodoli rhagoriaethau'r cyfreithiau i ddoethineb ac ysgolheictod [Blegywryd](#) a'i gymheiriaid, ond teg yw credu mai delfryd Hywel ei hun oedd unoli a sefydlu'n ddosbarthus amodau bywyd y gwahanol daleithiau a unasai ef yn un deyrnas. Gorffwys ei glod ar ei waith fel deddfwr, a gellir honni mai o gyfraith Hywel, yn bennaf, y tarddodd yr ymwybod cenedlaethol ymhlith y Cymry yn yr Oesoedd Canol.

## Awdur

Yr Athro Stephen Joseph Williams, (1896 - 1992)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 333-43, 354-6

J. E. Lloyd, *Hywel Dda penn a molyant yr holl vrytanyeit [Brut y tywysogion] 928-1928* (1770)

J. Goronwy Edwards, *Hywel Dda* (1929)

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 333-43, 354-6

J. E. Lloyd, *Hywel Dda penn a molyant yr holl vrytanyeit [Brut y tywysogion] 928-1928* (1770)

J. Goronwy Edwards, *Hywel Dda* (1929)

Wade-Evans, *Welsh Medieval Law, being a text of the laws of Howel the Good, namely the British Museum Harleian ms. 4353 of the 13th century, with translation, introd., appendix, glossary, index, and a map* (Rhydychen 1909)

T. Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law based on upon The Black Book of Chirk* (Manceinion 1913)

T. P. Ellis, *Welsh Tribal Law and Custom in the Middle Ages* (Rhydychen 1926)

Williams a Powell, *Cyfreithiau Hywel Dda yn Llyfr Blegywryd (dull Dyfed) argraffiad beirniadol ac eglurhaol*

A. Owen, *Ancient Laws and Institutes of Wales* (1841)

## Darllen Pellach

Daniel Huws, '[Leges Howelda at Canterbury](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* xix (1976) tt. 340-344

Daniel Huws, *Peniarth 28: darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda* (Aberystwyth 1988)

Dafydd Jenkins, *The Law of Hywel Dda: law texts from Medieval Wales* (Llandysul 1986)

A.D. Carr a Dafydd Jenkins, *A Look at Hywel's Law* (Hendy Gwyn ar Daf 1985)

Archifau LIGC: [Peniarth MS 28: Leges Hywel Dda](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 20143A: Laws of Hywel Dda](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 24029A: Llawysgrif Boston o Gyfreithiau Hywel Dda](#)

Archifau LIGC: [Peniarth MS 29: Llyfr Du'r Waun](#)

Prifysgol Cymru: Gwefan [Cyfraith Hywel](#) (cyrchwyd Gorffennaf 2020)

Erthygl Wicipedia: [Hywel Dda](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [17580035](#)

Wikidata: [Q422205](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

